


TGAU



CBAC TGAU
ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

A close-up photograph of three Sikh men wearing blue and black turbans. A kirpan (Sikh sword) is held vertically in the foreground, its blade reflecting light. The background is slightly blurred, showing more people in traditional attire.

Ffynonellau Doethineb ac Awdurdod Uned 2 a 3 Sikhiaeth

Rhan A

Sikhiaeth - Credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

Credoau

Cydraddoldeb

"Gwybod ein bod i gyd wedi'n geni o'r un clai"

Guru Granth Sahib 1349

Fe luniaist y dynion a'r menywod yma i gyd, Arglwydd. Y rhain i gyd yw Dy Ffurfiâu di.

Guru Granth Sahib 1350

Mae'r clai yr un peth, ond mae'r Lluniwr wedi ei lunio mewn gwahanol ffyrdd.

Mae'r Un Gwir Arglwydd yn byw ym mhawb; drwy ei wneuthuriad Ef, y gwneir pob peth.

Guru Granth Sahib 349

Adnabod fod yr Arglwydd yn Oleuni o fewn y cyfan, a phaid ag ystyried dosbarth cymdeithasol neu statws; nid oes dosbarthiadau na chastau yn y byd a ddaw.

Arferion

Gwyliau

Bhai Gurdas Var 3.11

Wedi cael ei dderbyn gan y Guru mae'r disgybl yn dod yn Sikh.

Dymuniad yr Arglwydd oedd y byddai'r Guru a'r disgybl yn dod yn un.

Rhan B

Thema 1: Perthnasoedd. Cynnwys o Safbwynt Sikhaid

Perthnasoedd

Guru Granth Sahib: 788

Ni ddywedir eu bod yn ŵr a gwraig, dim ond am eu bod yn eistedd gyda'i gilydd. Y nhw yw'r unig rai a elwir yn ŵr a gwraig, y rhai sydd ag un goleuni mewn dau gorff.

Rehat Maryada Pennod 11 Erthygl 18

<http://www.gurunanakdarbar.net/sikhrehatmaryada.pdf>

Erthygl XVIII - Anand Sanskar (Yn llythrennol Seremoni Lawen)

- a. Dylai dyn a menyw Sikh fynd i mewn i briodas heb feddwl am gast a llinach eu darpar wraig/ŵr.
- b. Rhaid i ferch Sikh fod yn briod â Sikh.
- c. Dylai priodas Sikh gael ei gweinyddu gan ddefodau priodas Anand.
- ch. Mae priodas plant yn tabŵ i Sikhiaid.
- d. Pan mae merch yn dod yn barod i briodi, yn gorfforol, emosiynol ac yn rhinwedd aeddfedrwydd cymeriad, dylid dod o hyd i gymar Sikh addas a dylai hi ei briodi drwy ddefodau priodas Anand.
- dd. Ni ddylid cael seremoni ddyweddïo cyn priodas. Ond os dymunir trefnu seremoni ddyweddïo, dylid cael cynulleidfya ynghyd, ac, wedi offrymu'r Ardas o flaen y Guru Granth Sahib, gellir rhoi kirpan, breichled ddur ac ychydig o felysion i'r bachgen.
- e. Mae ymgynghori â horosgopau i benderfynu pa ddiwrnod neu ddyddiad sy'n ffafriol neu fel arall ar gyfer y dydd priodas yn halogiad. Dylid trefnu unrhyw ddiwrnod sy'n addas wedi ymgynghori â'r ddwy ochr.
- f. Mae gwisgo addurniadau blodeuog neu euraid ar yr wyneb, penwisg addurnedig neu fandiau edau coch o amgylch yr arddwrn, addoli hynafiaid, diferu traed mewn llaeth wedi'i gymysgu â dŵr, torri llwyni aeron neu jandi (*Prosopis spicigera*), llenwi piser, seremoni ymneilltuo gan ffugio anfodlonrwydd, adrodd cwpledi, perfformio havans (tân aberthol), gosod vedi (canopi pren neu bafiliwn y mae priodasau Hindŵaidd yn cael eu cynnal oddi tanynt), dawnsiau puteiniaid, yfed gwirodydd, i gyd yn

halogiad.

- ff.** Dylai'r grŵp priodasol fod yn nifer mor fach ag y mae teulu'r ferch yn dymuno. Dylai'r ddwy ochr gyfarch ei gilydd gan ganu emynau cysegredig ac yn olaf gan y cyfarchiad Sikhaid Waheguru ji ka Khalsa, Waheguru ji ki Fateh.
- g.** I briodas, dylai fod cynulleidfa ynghyd ym mhresenoldeb sanctaidd Guru Granth Sahib. Dylai fod canu emynau gan ragis neu gan y gynulleidfa gyfan. Yna dylai'r ferch a'r bachgen gael eu rhoi i eistedd yn wynebu'r Guru Granth Sahib. Dylai'r ferch eistedd ar ochr chwith y bachgen. Wedi gofyn am ganiatâd y gynulleidfa, dylai meistr y seremoni briodasol (a all fod yn ddyn neu'n fenyw) wahodd y bachgen a'r ferch a'u rhieni neu warcheidwaid i sefyll a dylent offrymu'r Ardas ar gyfer dechrau seremoni briodasol yr Anand. Yna dylai'r gweinyddwr ddweud wrth y bachgen a'r ferch am ddyletswyddau a rhwymedigaethau bywyd priodasol yn ôl credoau'r Gurus.

I ddechrau dylai roi esboniad i'r ddau o'u rhwymedigaethau y naill at y llall. Dylai ddweud wrthyn nhw fodelu'r berthynas gŵr-gwraig ar y cariad rhwng yr enaid unigol a'r Enaid Goruchaf yng ngoleuni cynnwys emynau cylchrodiad (lavan) yn adran mesur Suhi (rag) y Guru Granth Sahib. Dylai esbonio wrthyn nhw y syniad o gyflwr "un enaid mewn dau gorff" sydd i'w gyflawni drwy gariad a gwneud iddyn nhw weld sut y gallan nhw gyrraedd undod gyda'r Bod Anfeidrol drwy gyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau bywyd teuluol. Dylid dweud bod yn rhaid i'r ddau ohonyn nhw, wneud eu huniad priodasol yn fodd i gyflawni pwrpas taith bodolaeth bywyd; mae'n rhaid i'r ddau fyw bywydau glân sy'n dilyn y Guru drwy gyfrwng eu huniad. Dylai wedyn esbonio wrth y bachgen a'r ferch yn unigol eu dyletswyddau priodasol fel gŵr a gwraig. Dylid dweud wrth y gŵr, gan fod teulu'r ferch wedi ei ddewis ef fel yr un mwyaf addas o nifer, y dylai ystyried ei wraig fel ei hanner gwell, rhoi cariad diysgog iddi a rhannu popeth sydd ganddo gyda hi. Ym mhob sefyllfa, dylai warchod ei henw a'i hanrhydedd, dylai fod yn gwbl ffyddlon tuag ati a dylai ddangos yr un faint o barch ac ystyriaeth tuag at ei rhieni a'i pherthnasau ag i'w rhai ei hun. Dylid dweud wrth y ferch ei bod wedi cael ei huno mewn priodas â'i dyn ym mhresenoldeb cysegredig y Guru Granth Sahib a'r gynulleidfa. Dylai hi bob amser ddangos tuag ato ofal parchus, a'i ystyried yn arglwydd a meistr ei chariad a'i hymddiriedaeth; dylai hi aros yn gadarn yn ei ffyddlondeb tuag ato a'i wasanaethu mewn llawenydd a thristwch ac ym mhob ardal (adref neu dramor) dylai ddangos yr un sylw ac ystyriaeth tuag at ei rieni a'i berthnasau, ac y byddai hi, i'w rhieni a'i pherthnasau ei hun. Dylai'r bachgen a'r ferch foesymgrymu gerbron y Guru Granth Sahib

fel arwydd eu bod yn derbyn y gorchmynion hyn. Wedi hynny, dylai tad y ferch neu'r prif berthynas wneud i'r ferch gydio yn un pen y sash y mae'r bachgen yn ei wisgo dros ei ysgwyddau a dylai'r sawl sy'n gweinyddu'r Guru Granth Sahib adrodd y penillion cylchrodiad priodasol (lavan y pedwerydd Guru yn adran mesur cerddorol Suhi yn y Guru Granth). Ar ôl gorffen adrodd pob un o'r penillion, dylai'r bachgen, yn cael ei ddilyn gan y ferch yn dal pen y sash, fynd o amgylch y Guru Granth Sahib tra bod y ragis neu'r gynulleidfa yn canu'r pennill a adroddwyd. Dylai'r bachgen a'r ferch, ar ôl pob cylchrodiad, foesyngrymu gerbron y Guru Granth Sahib drwy blygu glin, gan ostwng eu talcen i gyffwrdd y llawr ac yna sefyll i wrando ar y pennill nesaf yn cael ei adrodd. Gan fod pedwar pennill cylchrodiad priodasol yn yr emyn dan sylw, bydd y gweithgaredd yn cynnwys pedwar cylchrodiad gyda'r pennill yn cael ei ganu yr un pryd. Ar ôl cylchdroi am y pedwerydd tro, dylai'r bachgen a'r ferch, wedi moesyngrymu i'r Guru Granth Sahib, eistedd yn y lle penodedig a dylai'r ragis neu'r sawl sydd wedi cynnal y seremoni adrodd pum pennill cyntaf a phennill olaf yr Anand Sahib. Wedi hynny, dylid offrymu'r Ardas i nodi diwedd y seremoni briodas Anand a dylid dosbarthu'r pwddin cysegredig.

- ng.** Ni all unigolion sy'n arddel crefyddau heblaw'r grefydd Sikhaidd gael eu huno mewn priodas gan seremoni'r Anand Karaj.
- h.** Ni ddylai unrhyw Sikh dderbyn cymar i'w mab/merch am reswm ariannol.
- i.** Os yw rhieni'r ferch ar unrhyw adeg neu ar unrhyw achlysur yn ymweld â chartref eu merch ac mae pryd o fwyd yn barod yno, ni ddylent feddwl dwywaith cyn bwyta yno. Ofergoel yw ymatal rhag bwyta yng nghartref y ferch. Bendithiwyd y Khalsa â'r rhodd o fwyd a gwneud i eraill fwyta gan y Guru a'r Bod Anfeidrol. Dylai teulu'r ferch a theulu'r bachgen barhau i dderbyn lletygarwch y naill a'r llall, oherwydd mae'r Guru wedi eu huno mewn perthynas gyfartal.
- l.** Os yw gŵr menyw wedi marw, gall hi, os yw'n dymuno, ffeindio cymar addas iddi ac ailbriodi. I ddyn Sikh y mae ei wraig wedi marw, mae'r un gorchymyn yn wir.
- ll.** Gall yr ailbriodas gael ei gweinyddu yn yr un modd a'r briodas Anand.
- m.** Yn gyffredinol, ni ddylai Sikh briodi ail wraig os yw'r wraig gyntaf yn fyw.
- n.** Dylai Sikh a fedyddiwyd sicrhau fod ei wraig yn cael ei bedyddio.

Guru Granth Sahib 274

[Mae gwir Sikh] yn gweld yr Arglwydd Dduw ym mhopeth. Drwy Ras y Guru, mae'n rhoi'r gorau i lygredd, yn alltudio dymuniadau drwg y meddwl o'i feddwl... yn concro'i reddfau rhywiol ac yn rhydd o'r pum nwyd

pechadurus.

Perthnasoedd rhywiol

Guru Granth Sahib 335

Mae'r rheini sy'n cael eu twyllo gan bleserau rhywiol, sy'n cael eu temptio gan fwynderau rhywiol ac yn mwynhau gwin yn llwgr.

Materion cydraddoldeb: rhagfarn a gwahaniaethu ar sail rhyw

Guru Granth Sahib 473

O fenyw, fe enir dyn; o fewn menyw, cenhedlir dyn; â menyw mae ef yn dyweddïo a phriodi. Daw menyw yn ffrind iddo; drwy fenyw, mae'r cenedlaethau nesaf yn dod. Felly pam ei galw hi'n ddrwg? Ohoni hi, caiff brenhinoedd eu geni.

Thema 2: Materion Hawliau Dynol. Cynnwys o Safbwynt Sikhaid.

Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol

Guru Granth Sahib 1

Nid yw newyn y newynog yn cael ei ddiwallu, hyd yn oed drwy bentyrru llwythi o nwyddau bydol.

Rhagfarn a gwahaniaethu

Guru Granth Sahib: 349

Adnabod fod yr Arglwydd yn Oleuni o fewn y cyfan, a phaid ag ystyried dosbarth cymdeithasol neu statws; nid oes dosbarthiadau na chastau yn y byd a ddaw.

Materion cyfoeth a thlodi

Guru Granth Sahib: 42

Os yw cardotyn yn gweiddi wrth y drws, mae'r Meistr yn ei glywed yn Ei Blasty.

P'un ai fod Ef yn ei dderbyn neu'n ei wthio i ffwrdd, dyma Rodd Mawredd yr Arglwydd.

Adnabod fod yr Arglwydd yn Oleuni o fewn y cyfan, a phaid ag ystyried dosbarth cymdeithasol neu statws; nid oes dosbarthiadau na chastau yn y byd a ddaw.

Guru Granth Sahib 26 -

Yng nghanol y byd hwn, gwna seva, ac fe gei le anrhydeddus yn Llys yr Arglwydd.

Mae'r rheini sy'n gwasanaethu'r Gwir Guru yn cael Trysor y Naam.

Guru Granth Sahib: 1246

Mae'r rheini sy'n gwario cyfoeth yr Arglwydd yn cael heddwch drwy roi.

Ni fydd y rheini sy'n myfyrio ar Enw'r Arglwydd fyth yn anghenus.